Hawdd ei Ddeall

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

## Ein cynlluniau ar gyfer 2025 - 2030

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Medr. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'u '**Cynllun Strategol**'.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Rhagfyr 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Medr**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.medr.cymru/cy

**E-bost:** info@medr.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Amdanom ni a'r cynllun ........................................ 4**

**Ein Cynllun ........................................................ 6**

**Ein nodau .......................................................... 11**

Ein nod sylfaenol ................................................ 11

Nod 1 ................................................................ 13

Nod 2 ................................................................ 15

Nod 3 ................................................................ 17

Nod 4 ................................................................ 19

Nod 5 ................................................................ 21


**Beth fydd yn digwydd nesaf ................................ 23**

# Amdanom ni a'r cynllun

Ein henw ni ydy Medr. Ein henw cyfreithiol ydy'r **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**.



Ein gwaith ni ydy ariannu addysg ac ymchwil i bobl sy'n 16 oed neu'n hŷn yng Nghymru. Fe gawson ni ein sefydlu ym mis Awst 2024.




Mae ein Cynllun yn dangos beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2030. Mae'n seiliedig ar ddeddf y mae'n rhaid i ni ei dilyn. Ei henw ydy Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Rydyn ni hefyd yn dilyn llawer o ddeddfau eraill yng Nghymru.



Rydyn ni wedi gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud y cynllun yma.




Mae gan Lywodraeth Cymru nod o gael mwy o bobl yng Nghymru sydd â chymwysterau.





Mae Llywodraeth Cymru hefyd am leihau nifer y bobl sydd heb swydd neu mewn addysg neu hyfforddiant. Rydyn ni eisiau gwneud hynny hefyd.



Wrth geisio gwella pethau, mae angen i ni feddwl faint o arian sydd gennym ni. Mae amseroedd yn anodd a dim ond cymaint rydyn ni'n gallu ei wneud gyda beth sydd gennym ni.



Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig i  cyrff weithio gyda'i gilydd. A gwneud yn siŵr bod llawer o ffyrdd i ddysgwyr ddysgu.




Y cynllun yma ydy'r cam cyntaf tuag at gyflawni ein nodau.

# Ein Cynllun

Mae ein nod mawr hefyd yn cael ei alw yn ein **gweledigaeth**. Ein gweledigaeth ydy:



- Gweithio gyda'n gilydd a gwneud yn siŵr bod dysgu ac ymchwil yn rhoi'r dysgwr yn gyntaf.



- Helpu ein system addysg i fod yn dda ac yn gyfartal a chynnwys pobl.

Mae gennym ni **bedwar** gwerth. Dyma'r pethau sy'n bwysig i ni. Dyma nhw:



- Dysgu.



- Cydweithio.



- Cynnwys pawb.



- Rhagori.



Fe wnaethon ni ofyn am farn pobl a sefydliadau eraill i wneud y Cynllun yma. Roedd hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau yng Nghaerdydd a Llandudno.



Mae ein Cynllun Strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni eisiau gwella llawer o bethau. Er enghraifft, rydyn ni eisiau:



- Mwy o bobl mewn addysg.



- Mwy o gyfle i ddysgwyr gymryd rhan.



- Mwy o ffyrdd i ddysgu.



- Profiadau dysgu gwell.



- Cyfleoedd teg.




- Gwella llesiant dysgwyr.




- Mwy o ddysgu yn Gymraeg.



- Twf ymchwil yng Nghymru.




Rydyn ni wedi llunio rhai nodau i’n helpu i gyflawni’r pethau yma. Maen nhw’n cael eu galw yn **amcanion strategol**.




Mae gennym ni chwe **nod**. Maen nhw’n cael eu galw yn **nod sylfaenol** a **5 nod strategol.**

# Ein nodau

## Ein nod sylfaenol



Rydyn ni eisiau bod yn sefydliad da sydd yn gallu cyflawni ein nodau.

**Er mwyn cyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**




- Datblygu cynllun i swneud yn siŵr bod Medr yn lle da i weithio.



- Datblygu **cytundeb partneriaeth gymdeithasol**. Mae hwn yn gytundeb sydd yn cael ei wneud gyda staff i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu cymryd rhan lawn yn beth rydyn ni'n ei wneud.



- Trin ein staff fel unigolion.



- Rhoi rheolau ar waith ar gyfer sefydliadau addysg erbyn mis Awst 2026. Er enghraifft, fe fydd yn dweud beth sydd angen iddyn nhw ei wneud os ydyn nhw'n cael cyllid.



- Defnyddio rhifau i edrych ar beth sydd angen i ni ei wella.



- Edrych i weld fod sefydliadau'n dilyn y rheolau, ond mewn ffordd deg.




- Casglu gwybodaeth am sefydliadau addysg.




- Dod o hyd i'r ffyrdd gorau o ddarparu cyllid i sefydliadau addysg.

# Nod 1



Rydyn ni eisiau i'r dysgwr gael ei roi yn gyntaf a gwneud yn siŵr bod ei anghenion yn cael eu hateb.

**Er mwyn gwneud hyn, fe fyddwn ni'n:**




- Rhoi rheolau ar waith i helpu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cyfleoedd teg a chyfartal.




- Rhoi canllawiau ar waith i ddiogelu dysgwyr.




- Gwneud yn siŵr bod dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gallu cyflawni eu gorau.



- Sefydlu grŵp o'r enw fforwm llais y dysgwr. Mae hyn er mwyn gwrando ar farn dysgwyr am addysg.



- Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod am bolisïau cwynion lle maen nhw'n dysgu.



- Cefnogi dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.




- Lleihau nifer y bobl sydd ddim mewn gwaith neu Addysg.

## Nod 2




Rydyn ni eisiau i ddysgwyr gael y sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer y byd sydd yn newid o’u cwmpas.



Mae hyn yn bwysig i ddatblygu Cymru gyfan. A chadw i fyny â’r holl newidiadau sy’n digwydd gyda thechnoleg newydd.



Mae llawer o gyflogwyr wedi dweud nad oes gan staff y sgiliau maen nhw eu hangen.

**Fe fyddwn ni yn:**




- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru i weld pa sgiliau sydd eu hangen.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu dysgu trwy gydol eu bywydau.



- Gwneud yn siŵr bod yna nifer o ffyrdd i ddysgu.



- Gwneud yn siŵr bod dysgu o fudd i gymunedau.

# Nod 3



Rydyn ni eisiau i ddysgwyr gael addysg o ansawdd uchel.

**Er mwyn cyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**



- Gwella'r profiad mae dysgwyr yn ei gael.



- Edrych ar y ffyrdd gorau o weithio.



- Gweithio gyda lleoedd sy'n darparu dysgu i'w helpu i wella.



- Cefnogi staff i ddatblygu.



- Gosod safonau uchel ar gyfer dysgu.



- Helpu i sicrhau bod [?] dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.



- Edrych ar sut mae ein harian yn gweithio.



Rydyn ni yn awyddus i ddatblygu ein hymchwil. Rydyn ni eisiau cael ein cydnabod a'n parchu am ein hymchwil ar draws y byd.

**Er mwyn cyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**



- Gwneud yn siŵr bod gennym ni leoedd da i wneud ymchwil.



- Helpu sefydliadau addysg i gael mwy o gyllid ar gyfer ymchwil.



- Cefnogi ymchwil sy'n cael effaith gadarnhaol ar Gymru.



- Rhoi cyfleoedd i fusnesau newydd ddatblygu.



- Cymryd rhan mewn rhaglenni ymchwil ar draws y byd.

# Nod 5




Rydyn ni eisiau cael mwy o ddysgu yn Gymraeg.

**Er mwyn cyflawni hyn, fe fyddwn ni'n:**




- Gwneud cynllun am yr iaith Gymraeg. Rydyn ni eisiau i staff **Medr** siarad Cymraeg a Saesneg.



- Meddwl am y Gymraeg yn ein holl benderfyniadau.




- Gwneud cynllun i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy mewn addysg ac ymchwil.




- Cefnogi mwy o staff mewn lleoedd sy’n darparu addysg i deimlo’n hyderus i addysgu yn Gymraeg.



- Edrych ar y cynnydd rydyn ni yn ei wneud.





- Cael mwy o bobl i eisiau dysgu yn Gymraeg.

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Fe fydd y cynllun yn rhedeg dros y 5 mlynedd nesaf. Dyma'r cam cyntaf tuag at gyflawni ein nodau.





Fe fyddwn ni'n gwneud Cynllun gwahanol yn 2025 gyda mwy o fanylion am sut y byddwn yn cyflawni ein nodau.



Rydyn ni'n credu ein bod yn gallu bod yn llwyddiannus os ydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd. Fe fyddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r sefydliadau sy'n darparu dysgu.



Fe fyddwn ni'n gwneud cofrestr o'r holl sefydliadau sy'n darparu addysg uwch. Mae hyn yn meddwl sefydliadau fel prifysgolion. Fe fydd rheolau hefyd am gyllid ar gyfer lleoedd sy'n darparu dysgu i bobl dros 16 oed.




Fe fyddwn ni'yn edrych ar sut rydyn ni'n gwneud ac yn gwneud adroddiad bob blwyddyn. Fe fydd yr adroddiad ar ein gwefan.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**